

SEFYDLIAD Y MERCHED DOLWYDDELAN YN 75 MLWYDD OED!

Sefydlwyd Sefydliad y Merched yma yn Nolwyddelan yn dilyn diwedd yr Ail Ryfel Byd. Roedd merched Byddin y Tir a Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched eisiau parhau i helpu eu cymuned, ac felly ffurfiwyd cangen Sefydliad y Merched lleol.

Mis Hydref 2021 oedd pen-blwydd Sefydliad y Merched yn 75 mlwydd

DOLWYDDELEN

WOMEN'S INSTITUTE. — At a meeting of the recently formed Dolwyddelan branch of the Women's Institute, Mrs. Chesters entertained members with her experiences while serving abroad with the W.V.S. Her talk was illustrated by lantern slides. Refreshments were served and Mrs. Howells presided.

Tachwedd 1946

oed yma, ond bu'n rhaid oedi'r dathliadau oherwydd COVID. Ar ddydd Gwener Ebrill 1af eleni, bu inni gyfarfod yn y Princes Arms, Trefriw, lle darllenwyd cofnodion y cyfarfod cyntaf erioed. Bryd hynny roedd 45 o aelodau a'r tâl aelodaeth oedd 2/6c! Bu i rai o aelodau heddiw siarad am enwau, llefydd a digwyddiadau blaenorol arwyddocaol gan hel

llawer o atgofion.

Diolchodd Vanda yr Is-lywydd ar ran y pwyllgor a'r aelodau newydd i Lona Roberts ac Anna Wyn Hughes oedd yn rhoi'r gorau i'w swyddi fel Llywydd ac Ysgrifenyddes. Roedd Lona wedi bod yn Is-lywydd cyn ymgymryd â rôl y Llywydd 17 mlynedd yn ôl. Roedd Lona yn credu ei bod yn amser am waed newydd gan roi cyfle iddi felly ymlacio a mwynhau bod yn aelod yn lle.

Ymunodd Anna â'r Sefydliad am y tro cyntaf 52 mlynedd yn ôl yn fuan



Dathliadau pen-blwydd yn 75 mlwydd oed.